# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

## RHAN 1

RHEOLEIDDIO GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL

## PENNOD 2

COFRESTRU ETC. DARPARWYR GWASANAETHAU

*Rheoliadau a chanllawiau*

### 31 Rheoliadau ynghylch darparwyr gwasanaethau sydd wedi marw

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth—

(a) i'r Rhan hon fod yn gymwys gydag addasiadau rhagnodedig pan fo darparwr gwasanaeth sy'n unigolyn wedi marw;

(b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynrychiolwyr personol unigolyn o'r fath hysbysu Gweinidogion Cymru am y farwolaeth.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) yn benodol ddarparu i berson rhagnodedig nad yw'n ddarparwr gwasanaeth weithredu yn y rhinwedd honno am gyfnod rhagnodedig ac i'r cyfnod hwnnw gael ei estyn o dan amgylchiadau rhagnodedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 31 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 31 mewn grym ar 2.4.2018 gan O.S. 2017/1326, **ergl. 2(3)(d)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 02/04/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 31.